Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

# POLISI TALU A RHYDDHAD O DALU AM WEITHGAREDDAU 2025/26

- Mae Deddf Addysg 1988 yn gosod rheolau am daliadau y gellir eu hawlio mewn perthynas ag addysg a gweithgareddau addysgol. Yn gyffredinol y polisi ar daliadau a chyfraniadau yw codi tál lle y caniateir hyn a hefyd gwahodd cyfraniadau gwirfoddol lle y caniateir rhain.

- Ni chodir tál am addysg yn ystod oriau ysgol, nac am addysg y tu allan i oriau ysgol lle y bo angen yr addysg fel rhan o faes llafur arholiad allanol. Gellir gofyn am gyfraniadau gwirfoddol yn yr achosion a nodir isod ond nid oes hawl mynnu bod rhieni'n talu ac ni ellir gadael allan unrhyw ddisgybl oherwydd dim cyfraniad.

- Gellir codi tál am weithgareddau sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol nad sy'n ymwneud á gwaith arholiad yn benodol.

- Ystyrir fod gweithgaredd yn digwydd yn ystod oriau ysgol os yw 50% neu ragor o'r amser a gymerir (gan gynnwys teithio) yn digwydd yn oriau ysgol. Fel arall ystyrir ei fod yn digwydd y tu allan i oriau ysgol.

## GWEITHGAREDDAU LLE GELLIR GOFYN AM DÁL

1. Gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol nad sy'n rhan o gwrs arholiad allanol

2. Bwyd a llety cyrsiau preswyl o unrhyw fath; tâl am athrawon cyflenwi i warchod dros athrawon sydd ar gyrsiau preswyl.

3. Deunydd a chynhwysion ar gyfer y pynciau ymarferol, megis Lles Maeth a Thechnoleg, lle mae rhieni wedi mynegi'r dymuniad i gadw'r cynnyrch terfynol.

4. Taliadau trwsio (gan gynnwys cost adnewyddu lle bo'n addas) niwed a achoswyd gan gamymddwyn bwriadol ar ran disgybl.

**Rhaid i'r tâl adlewyrchu'r gost iawn**

## GWEITHGAREDDAU LLE NA ELLIR GOFYN AM DÁL OND GELLIR GOFYN AM GYFRANIADAU GWIRFODDOL

**1.** Gwibdeithiau o fewn oriau ysgol*

**2.** Gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol sy'n rhan o gwrs arholiad allanol*

**3.** Cyrsiau preswyl o fewn oriau ysgol sy'n gysylltiedig á chwrs arholiad allanol*

**4.** Deunydd, cynhwysion ac offer sydd eu hangen yn y pynciau ymarferol

* Gellir gofyn am fwy na’r gost iawn (tua 10%) er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau yn digwydd a bod pob plentyn yn mynd gan gynnwys y rhai nad sydd wedi cyfrannu.

**POLISI TALU AM WERSI OFFERYNNOL/LLEISIOL**
Bydd rhieni yn talu swm o arian am hyfforddiant cerddorol arbenigol gan *Academi De Cymru* ar safle’r ysgol. Gwneir y cytundeb hwn yn uniongyrchol rhwng y rhieni a’r *Academ*i.

Gall yr Academi gymryd i ystyriaeth sefyllfaoedd arbennig rhieni unigol e.e. plant PYD, pan yn pennu ffioedd.

*(Adolygwyd: Gorffennaf 2025)*